TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Dyfarniad mewn Estyniadau Amrannau Lefel 3

Yn gryno

Os ydych yn awyddus dilyn gyrfa yn y diwydiant harddwch, yna bydd y cwrs hwn yn eich addysgu chi sut i roi amrannau parhaol unigol, yn ogystal â rhoi gwybodaeth gadarn i chi o iechyd a diogelwch mewn amgylchedd salon a hyrwyddo gofal cleientiaid a chyfathrebu gyda chleientiaid.

Dyma'r cwrs i chi os...

...unrhyw un sydd eisiau gwella eu sgiliau presennol a chynnig triniaethau diweddaraf y diwydiant.

...rheiny sydd eisiau dysgu proffesiwn newydd a gweithio yn y diwydiant harddwch.

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs VTCT Dyfarniad Lefel 3 mewn Estyniadau Amrannau wedi'i ddylunio'n benodol i ddatblygu'ch sgiliau mewn therapi harddwch i lefel uwch, fel y gallwch gynnig eich

gwasanaethau salon eich hun. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan Awdurdod y Diwydiant Trin Gwallt a Harddwch (HABIA), y corff gosod safonau ar gyfer cymwysterau trin gwallt, harddwch, ewinedd a sba.

Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, gweithgar, cyfeillgar ac yn meddu ar lefel uchel o gyflwyniad personol, a bod yn ymroddedig i bresenoldeb llawn a phrydlondeb yn yr holl sesiynau. Bydd disgwyl i chi weithio ar gleientiaid go iawn mewn amgylchedd masnachol a bod yn gyfrifol am ddatblygu'ch 'sylfaen o gleientiaid' eich hun.

Cewch eich asesu gan gyfuniad o waith arsylwi, datganiadau tystion, cyfryngau clyweledol, cwestiynau ysgrifenedig ac ar lafar, aseiniadau ac astudiaethau achos.

Ar ôl y cwrs hwn, gallech symud ymlaen i gymwysterau VTCT eraill, neu weithio yn y diwydiant yn gwneud triniaethau estyniad amrannau. Gallech gofrestru i wneud cyrsiau harddwch eraill neu gael gwaith fel technegydd amrannau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg ein salon yw:

Tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau gwallt a lliw ewinedd
Dim tlysau - caniateir gwisgo modrwy briodas yn unig

Bydd disgwyl i chi wisgo gwisg y diwydiant harddwch neu ddillad addas a phrynu pecyn arlliwio fel amod o'ch lle ar y cwrs, sydd tua £80 i £100.